# AMSERLEN



## 8 TACHWEDD 2024 – 3 IONAWR 2025

**Ymgynghoriad** – nodi unrhyw 'fylchau' sy'n deillio o Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi yng nghylch gwaith y Pwyllgor.



## CHWEFROR / MAWRTH 2025

Arbenigwyr ym maes Paratoadau Sifil a Chynllunio ar gyfer Argyfyngau o Brifysgol Nottingham Trent i wneud gwaith dadansoddi ar y bylchau sy'n deillio o Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 y DU ac Adolygiad Gweithredol Interim Cymru. Dr Simon Williams o Brifysgol Abertawe i gyfrannu at y gwaith hwn.



## 2 RHAGFYR 2024

Digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid – ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, trafod eu safbwyntiau ar Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, a nodi unrhyw fylchau sy'n deillio o'r adroddiad hwnnw.

- **Adroddiad Cryno**



## IONAWR 2025

Y Pwyllgor i drafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad / y gwaith dadansoddi ar y bylchau gan Brifysgol Nottingham Trent.

***Noder:** dyddiadau dangosol yw'r rhain, ac mae'n bosibl y byddant yn newid

### 16 IONAWR 2025

**Ymateb Llywodraeth y DU**, ac **ymateb Llywodraeth Cymru** i Adroddiad Modiwl 1, Ymchwiliad Covid-19 y DU.

### 17 CHWEFROR 2025

Ar ôl cwblhau'r uchod, cynnig i'r Senedd, drwy gynnig, unrhyw fylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig Covid-19 y dylid eu harchwilio ymhellach.

Bydd y Pwyllgor yn trafod unrhyw fylchau posibl ar 17 Chwefror 2025.

### I'W GADARNHAU

Yn amodol ar y Senedd yn cymeradwyo'r bylchau hyn – nifer o sesiynau tystiolaeth gyda thystion perthnasol a Llywodraeth Cymru.

### I'W GADARNHAU

Y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad.

### I'W GADARNHAU

Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor.

***Noder:** dyddiadau dangosol yw'r rhain, ac mae'n bosibl y byddant yn newid